No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2022

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams, M.R Wilkinson a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

### C163 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwylio yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'dawelu' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwr am siarad, y dylai godi ei law (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

Nododd yr Arweinydd, ynghylch y newyddion y byddai Cyngor Bro Morgannwg, fel rhan o becyn ariannu ychwanegol o £227m ar gyfer Awdurdodau Lleol ledled Cymru, yn derbyn cynnydd yn ei setliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru o 8.9%. Roedd yn cydnabod y pwysau ariannol sylweddol yr oedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn ei wynebu, ond hefyd y rolau hanfodol a chwaraeodd Cynghorau wrth gefnogi eu cymunedau. Gan gymeradwyo ei hymrwymiad i wasanaethau lleol, roedd yn rhaid cydnabod mai adnoddau cyfyngedig oedd gan Lywodraeth Cymru ac yn anffodus ni fyddai'n datrys y pwysau cyfan o £38m yng nghyllideb y Cyngor, a oedd yn parhau mewn sefyllfa heriol iawn. Roedd rhai penderfyniadau anodd o'u blaenau, ac fel erioed, y flaenoriaeth fyddai diogelu'r gwasanaethau hanfodol y mae'r trigolion mwyaf bregus yn dibynnu arnynt. Byddai'r Cyngor yn gweithio dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd er mwyn deall beth oedd ystyr y newyddion o ran cynllunio ariannol wrth i broses y Cyngor i osod cyllideb barhau. Wrth i gynigion ddod yn gliriach, byddai'r Cyngor yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus trwy fis Ionawr a Chwefror cyn y bydd unrhyw gynlluniau'n cael eu cwblhau ym mis Mawrth. Gobaith yr Arweinydd oedd y byddai cymaint o drigolion y Fro â

phosibl yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwnnw fel bod pob barn a chyfraniad yn cael ei glywed.

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cabinet yn 2022, dymunodd yr Arweinydd i bawb ym Mro Morgannwg Nadolig llawn mwynhad a Blwyddyn Newydd hapus, iach a heddychlon. Er y byddai llawer yn treulio cyfnod y Nadolig gyda theulu a ffrindiau, roedd llawer o rai eraill ledled Bro Morgannwg y byddai'n fusnes fel arfer iddynt, er enghraifft, byddai gofalwyr cartref a'r rhai sy'n gweithio yn ein cartrefi gofal lleol yn cydbwyso'u hamser i ffwrdd gyda gofalu am ein trigolion mwyaf bregus.  Byddai Tîm Gwastraff ac Ailgylchu'r Cyngor yn dal i gasglu, beth bynnag fyddai'r tywydd, ac fe fyddai gwasanaethau hanfodol eraill ar gael.  Byddai siopau, tafarndai a bwytai lleol yn dal i ddarparu gwasanaethau ac roedd angen cymorth arnynt dros gyfnod yr ŵyl.   Nid oedd rôl y gymuned ffermio i'w hanwybyddu, yn ogystal â'r gwasanaeth hanfodol a ddarparwyd gan yr RNLI, Gwarchodlu'r Arfordir, yr AA a RAC, yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Ambiwlans.  Ar ran y Cabinet a Chyngor Bro Morgannwg, diolchodd yr Arweinydd i unrhyw un sy'n helpu i gefnogi eraill dros gyfnod yr ŵyl.

## C164  COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

## C165  DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C166  PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL -

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2022 fel y'i ceir o fewn yr agenda.

Dywedodd y Cynghorydd Williams, a gadeiriodd y Panel Rhianta Corfforaethol, mai dyma oedd cyfarfod cyntaf y Panel ers yr etholiad, a bod ail gyfarfod wedi digwydd, a byddai'r cofnodion yn cael eu hadrodd i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod, nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mro Morgannwg, lles ac iechyd meddwl, perthnasau a maethu.  Diolchodd yr Arweinydd i bawb oedd yn gallu rhoi sefydlogrwydd i bobl ifanc.

PENDERFYNWYD – I gofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2022 gael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniadau

Wrth nodi’r cofnodion.

**C167 CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (AG/BA) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i bwrpas oedd diweddaru'r Cabinet ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a dirprwyo pwerau penodedig i enwi Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Deiliad Portffolio perthnasol yn ymwneud â darparu'r Cynllun Buddsoddi sy'n dod i'r amlwg yn lleol.

Gan nad oedd manylion diffiniol y rhaglen wedi'u derbyn eto, ceisiodd yr adroddiad gymeradwyo'r gwahanol ddirprwyaethau y byddai eu hangen wrth baratoi ar gyfer derbyn y manylion terfynol.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) NODI cynnwys yr adroddiad.

(2) RHODDIR awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid/Adran 151 a Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gymeradwyo defnyddio Dyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer prosiectau mewnol a gomisiynwyd yn allanol.

(3) BOD y Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cyllid/ Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) yn cael eu hawdurdodi i drafod telerau ac amodau ar gyfer penodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau mewnol ac allanol a gomisiynwyd.

(4) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151) yn cael ei awdurdodi i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol i alluogi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti i gael eu penodi ar gyfer prosiectau mewnol ac allanol a gomisiynwyd.

(5) RHODDIR awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid/Adran 151 Swyddog a Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gymeradwyo strwythurau

llywodraethu ac adnoddau i asesu a phenderfynu ar geisiadau gan drydydd partïon i ddefnyddio Dyraniad Cronfa Ffyniant a Rennir y DU.

(6) RHODDIR awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol gydag ymgeiswyr grant trydydd parti.

(7) RHODDIR awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid/Adran 151 (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Lle) i gymeradwyo ychwanegiadau, dileu neu drosglwyddo i neu o'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU 2022/23 - 2024/25 lle bo angen.

(8) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio i gael ei ystyried.

(9) BOD Cabinet yn cael adroddiad pellach maes o law sy'n nodi'r penderfyniadau ar gyfer 2022-23.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I nodi'r sefyllfa bresennol.

(2) I gael awdurdod i gymeradwyo defnyddio Dyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer prosiectau mewnol a chomisiynwyd yn allanol.

(3) I gael awdurdod i benodi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti ar gyfer prosiectau mewnol a chomisiynwyd yn allanol.

(4) I gael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol i alluogi cyflenwyr/darparwyr trydydd parti i gael eu penodi ar gyfer prosiectau mewnol a chomisiynwyd yn allanol.

(5) I gael awdurdod i gymeradwyo strwythurau llywodraethu ac adnoddau i asesu a phenderfynu ar geisiadau gan drydydd partïon i ddefnyddio Dyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

(6) I gael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol gydag ymgeiswyr grant trydydd parti.

(7) I gael awdurdod i'r cyllid gael ei gynnwys yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 - 2024/25 a gwneud y mwyaf o allu'r Cyngor i ddefnyddio'r swm a ddyrannwyd yn y modd gorau posibl.

(8) I sicrhau craffu priodol ar yr adroddiad.

(9) I sicrhau bod y Cabinet yn cael gwybod am ddefnyddio Cronfa Ffyniant Gyffredin.

## C168 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR: 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i bwrpas oedd ceisio cael sêl bendith ar gyfer Sylfaen Treth Gyngor ar gyfer 2023/24, gan gytuno ar nifer yr eiddo ar lefel Band D y byddai'r Dreth Gyngor yn seiliedig arno a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 6 Ionawr, 2023.
Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod y manylion yn darparu syniad da o faint y cymunedau, a'r sail ar gyfer gweithio allan y praeseptau ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) YN UNOL â'r adroddiad hwn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Dreth), bydd y swm a gyfrifir gan Gyngor Bro Morgannwg fel ei Sylfaen Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 fel a ganlyn:-

- I'r ardal gyfan: 62,334
- Ar gyfer ardal Cynghorau Tref a Chymuned:

| Cyngor Tref/Cymuned | Sylfaen Treth £ | Cyngor Tref/Cymuned | Sylfaen Treth £ |
|---|---:|---|---:|
| Y Barri | 20,914 | Pendeulwyn | 352 |
| Tregolwyn | 375 | Pen-llin | 1,065 |
| Y Bont-faen gyda Llanfleiddan | 2,839 | Llanbedr-y-fro | 553 |
| Dinas Powys | 4,028 | Y Rhws | 3,229 |
| Ewenni | 450 | Sain Tathan | 1,601 |
| Llancarfan | 486 | Saint-y-brid | 1,434 |
| Llandochau | 951 | Sain Dunwyd | 205 |
| Llandŵ | 441 | Sain Siorys a Llansanffraid Elái | 241 |
| Llanfair | 384 | Sain Nicolas a Thresimwn | 742 |
| Llan-gan | 464 | Sili a Larnog | 2,706 |
| Llanfaes | 261 | Llanddunwyd | 325 |
| Llanilltud Fawr | 4,305 | Gwenfô | 1,564 |
| Llanfihangel | 241 | Y Wig | 535 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Penarth | 11,643 | | |

(2) DYLID awdurdodi defnyddio paragraff 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniad brys) i ganiatáu i'r Sylfaen Dreth derfynol, wedi'i chadarnhau, gael ei dychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn 6 Ionawr, 2023.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Roedd yn hanfodol bod y Sylfaen Dreth Gyngor wedi ei gosod er mwyn gallu ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i defnyddio gan Gynghorau a chyrff ardollau i osod praeseptau.

(2) I gwrdd ag amserlen Llywodraeth Cymru.

**C169 CEFNOGAETH COSTAU BYW AR GYFER BWYD, MANNAU CYNNES A DULLIAU CEFNOGI ERAILL (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL A CHARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno trosolwg o'r gwaith yr oedd y Cyngor wedi ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Roedd hyn yn cynnwys help i wella mynediad at fwyd ar draws Bro Morgannwg ac amlinellu sut mae'r gwaith hwn a chyfleoedd ariannu sy'n gysylltiedig â darparu Croeso Cynnes y gaeaf hwn, gwaith arall i gynorthwyo pobl sy'n cael trafferth gyda chostau byw cynyddol ac i godi ymwybyddiaeth o adroddiad diweddar Archwilio Cymru 'Amser am newid – tlodi yng Nghymru ac ymateb arfaethedig y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Baragraff 2.6 o'r adroddiad a'i bod wedi cael ffigyrau wedi'u diweddaru i'r tabl a gyhoeddwyd, fel a ganlyn:-

| Ffrwd Ariannu | Dyddiad Derbyn | Cyfanswm a Dderbyniwyd | Cyfanswm a Ddyfarnwyd hyd yma | Cyfanswm nifer y Sefydliadau a gefnogir | Amcangyfrif Cyfanswm Nifer y Defnyddwyr Gwasanaeth yr Wythnos (yn fras ar adeg derbyn y cynnig) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Cymorth Aelwydydd | 14/04/2022 | £32,747 | £32,747 | 6 | 598 |
| Cronfa Cymorth Uniongyrchol i Fwyd 1 | 06/10/2022 | £17,151 | £0 | Amh. | Amh. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Cymorth Uniongyrchol i Fwyd 2 | 16/11/2022 | £32,945 | £30,420 | 7 | 605 |
| Cronfa Ddewisol Costau Byw | 09/06/2022 | £50,000 | £50,000 | 7 | 303 |
| Cronfa Partneriaeth Fwyd | Disgwyliedig | £97,000 (dangosol) | Amh. | Amh. | Amh. |
| Cronfa Banciau Cynnes | 15/11/2022 | £33,196 | £14,611.80 | 9 | 3,460 |
| Cyfanswm | | £166,039 (£263,039 gan gynnwys dangosol) | £127,778.80 | 19* | 4,966 |

*Roedd rhai sefydliadau wedi bod yn llwyddiannus mewn mwy nag 1 cais ar draws y gwahanol ffrydiau.

O ran mannau cynnes, roedd un defnyddiwr yn Llyfrgell y Barri wedi gwerthfawrogi croeso cynnes, yn gallu darllen llyfr, gwylio gweithgareddau'r plant a chael cynnig diod boeth a photel dŵr poeth, gan ei gadael â theimlad o gefnogaeth ac yn gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaed gan y staff. Ar ran y Cabinet, fe ddiolchodd yr Arweinydd i'r tîm yn Llyfrgell Y Barri, yn ogystal â holl staff eraill y llyfrgell, ac unrhyw un sy'n gweithio i sicrhau bod trigolion Bro Morgannwg yn derbyn gofal a chefnogaeth.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad a'r bwriad i symud ymlaen i ddosbarthu'r ffrydiau ariannu 2022/23 sy'n weddill yn cael eu nodi.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ac at y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Diogel er eu gwybodaeth ac wrth ystyried yn benodol ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru, gyda'u sylwadau wedi'u cyfeirio gyda'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hystyried, gydag unrhyw un o sylwadau'r Pwyllgorau hynny wedi'u cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i gymeradwyo'r camau gweithredu wrth ymateb i waith Archwilio Cymru.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) I alluogi Aelodau i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth ddarparu nifer o ffrydiau a phrosiectau ariannu i wella mynediad at fwyd.

(2) Roedd yr adroddiad yn destun craffu gan y Pwyllgorau hynny, ac ystyriwyd yr ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn ei gymeradwyo gan y Cabinet.

**C170 ARDOLL YMWELWYR I GYMRU – CYNGOR BRO MORGANNWG (DA/LC) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i bwrpas oedd sefydlu bwriadau presennol y Cyngor ar gyflwyno'r Dreth Twristiaeth a darparu ymateb i ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru ar y bwriad i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ddewisol yng Nghymru.

Nodwyd bod y ddogfen ymgynghori yn canolbwyntio ar aros ymwelwyr yn hytrach na lle'r oedd y math amlycaf o ymwelwyr oedd yr ymwelydd dydd. Roedd y ddogfen ymgynghori yn caniatáu adborth gan dynnu sylw at y mater hwnnw i'w godi.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd bod adran 'Ymgynghoriad Aelod a Swyddog Etholedig' yr adroddiad yn dweud bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu perthnasol, a fyddai wrth gwrs yn digwydd ar yr adeg briodol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y diweddariad am ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru ar y cynnig i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr ddewisol yng Nghymru'n cael ei nodi.

(2) BYDDAI cynigion presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghymru yn cael eu hystyried, a chytunwyd, yn sgil y trafferthion economaidd presennol sy'n wynebu'r diwydiant, y sefyllfa bresennol fyddai peidio cyflwyno ardoll ym Mro Morgannwg ac y dylid defnyddio hyn i lywio'r ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

(3) BYDDAI'R Cyngor yn adolygu'r opsiynau ar gyfer Ardoll Ymwelwyr o bryd i'w gilydd, pe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei deddfu a gan ystyried yr amodau economaidd ar adeg yr adolygiad hwnnw.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) I hysbysu'r Cabinet am yr ymgynghoriad presennol.

(2) I sefydlu sefyllfa bresennol Bro Morgannwg ar gyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr, a darparu ymateb i'r ymgynghoriad presennol.

(3) I ganiatáu ystyriaeth bellach o ardoll ymwelwyr ym Mro Morgannwg yn y dyfodol pe bai amodau economaidd neu amodau eraill yn newid.

**C171 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2024/25 (ACG) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i bwrpas oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar drefniadau derbyn ysgolion yr Awdurdod Lleol yn ôl gofynion Cod Derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD - BOD yr ymgynghoriad sy'n ofynnol ac fel y'i nodir yng nghorff yr adroddiad, i gytuno ar drefniadau derbyn yr Awdurdod Lleol (Atodiad A i'r adroddiad) ar gyfer cymeradwyo pob ysgol gymunedol ym Mro Morgannwg.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Nododd paragraff 2.3 (tudalen 6) o'r Cod Derbyn i Ysgolion (Cymru) Gorffennaf 2013 "Rhaid ymgynghori ar Drefniadau Derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir rhwng 1 Medi a 1 Mawrth a chael eu pennu erbyn 15 Ebrill yn y blynyddoedd ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n gymwys ynddi".

**C172 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021 – 2036: ADRODDIAD CWMPASU ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD INTEGREDIG - ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD (YGCGR) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i bwrpas oedd cynghori'r Cabinet am ganlyniad yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) a chynghori ar gamau nesaf y broses ACI.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) NODI cynnwys yr adroddiad ar ymgynghoriad cyhoeddus yr Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

(2) Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, a bod y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei ddiweddaru'n unol â hynny.

(3) RHODDIR awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Datblygu Cynaliadwy mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ymgysylltu Cymunedol, Cydraddoldeb a'r Gwasanaethau Rheoliadol a'r Cyfarwyddwr Lleoedd i wneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill i'r Fframwaith Cwmpasu/ACI yn ôl yr angen.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I adlewyrchu'r adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a galluogi swyddogion i gwblhau'r Adroddiad Cwmpasu Cynaliadwyedd Integredig/Fframwaith ACI.

(2) I adlewyrchu'r adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a galluogi swyddogion i gwblhau'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac i sicrhau bod yr CDLIN yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

(3) Er mwyn galluogi newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb yr angen i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet.